Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Huw.Irranca-Davies@senedd.wales

9 Chwefror 2022

Annwyl Huw,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 4 Ionawr, ac yn unol â'r cytundeb ar gysylltiadau rhyngsefydliadol, cynhaliwyd cyfarfod o Grŵp Rhyng-Weinidogol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar 31 Ionawr.

Yn bresennol yn y cyfarfod roedd Mairi Gougeon ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Ynysoedd, Llywodraeth yr Alban; Lorna Slater ASA (Cadeirydd), y Gweinidog dros Sgiliau Gwyrdd, yr Economi Gylchol a Bioamrywiaeth, Llywodraeth yr Alban; Edwin Poots ACD, y Gweinidog Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon; a George Eustice AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth y DU. Roedd yr Arglwydd Malcom Offord, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yr Alban a David TC Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru hefyd yn bresennol.

Yn y cyfarfod trafodwyd cais Llywodraeth yr Alban am eithriad i Ddeddf y Farchnad Fewnol ar gyfer plastigau untro, lle y pwysais ar Lywodraeth y DU i roi amserlen ar gyfer penderfyniadau ynghylch y mater hwn. Rhoddodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gyflwyniad ar eu hymgynghoriad ar gyfer eu polisïau amaethyddol yn y dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trafodwyd cadwyni cyflenwi a phrinder llafur o fewn sectorau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, lle yr ailadroddais fy mhryderon ynghylch prinder staff milfeddygol ac yn enwedig y rhai sydd eu hangen ar APHA ac ar gyfer archwiliadau ar y ffin ym mhorthladdoedd Cymru yn y dyfodol a hefyd Brotocol Gogledd Iwerddon, lle roeddwn yn pwyso am eglurder ynghylch a fyddai angen mesurau dros dro mewn porthladdoedd sy'n gwneud busnes ag Iwerddon neu beidio.

Roedd nifer o faterion eraill i'w trafod, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer cyhoeddi Fframweithiau Cyffredin, Adroddiad Dimbleby, cynigion Coleg Brenhinol y Milfeddygon ynghylch diwygio milfeddygol, tatws hadyd a'r Mesur Rhyddid Brexit. Bydd y ddau fframwaith a'r Mesur Rhyddid Brexit ar brif agenda cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyng-Weinidogol a fydd yn cael ei gynnal ar 21 Mawrth 2022.

Bydd neges yn cael ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, ac at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Dymuniadau gorau,

Lesley Griffiths

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.